# Polisi Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

**Tabl Rheoli Dogfennau**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | **Polisi Moeseg Ymchwil APS** |
| **Awdur(on) (enw, teitl y swydd a sefydliad):** | Gareth Longden, Cofrestrydd |
| **Rhif y Fersiwn:** | Fersiwn 1.1 |
| **Statws y Ddogfen:** | Wedi ei gymeradwyo |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 21 Awst 2023 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Bwrdd Academaidd Athrofa Padarn Sant |
| **Dyddiad ei roi ar waith:** | Awst 2023 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | Mehefin 2025 |
| **Fersiwn a ddisodlwyd:** | 1 |

**Hanes y Ddogfen:**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Nodiadau ar Ddiwygiadau** |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1 | 02/06/2021 | Gareth Longden, Cofrestrydd | • Drafft cyntaf |
| Fersiwn 1.1 | Gorffennaf 2023 | Gareth Longden, Cofrestrydd | • Wedi ddiwygio I gynnwys cyfeiriad at Boli Camymddwyn Academaidd Common Awards |

## Polisi Moeseg Ymchwil APS

Mae’r ddogfen hon yn diffinio safonau’r ymddygiad cyfrifol a moesegol a ddisgwylir gan yr holl unigolion sy’n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn Athrofa Sant Padarn gan gynnwys y staff a’r dysgwyr ar raglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Durham, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

### 1. Cynnwys y Polisi


1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Fframwaith y Polisi
4. Diffiniadau
5. Diogelu
6. Y Cod Ymarfer Moeseg Ymchwil
7. Rhesymau dros Geisio Adolygiad/Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Gwaith Ymchwil
8. Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cais am Adolygiad/Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Gwaith Ymchwil
9. Proses Gymeradwyo ar gyfer Gwaith Ymchwil sy’n cynnwys Elfen Foesegol: Pwyllgor Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant
10. Camymddwyn mewn Ymchwil
11. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo ac Adolygu Polisi
12. Cyfathrebu’r Polisi

## 2. Cyflwyniad

**2.1** Mae'r Polisi Moeseg Ymchwil yn pennu'r safonau ar gyfer yr ymddygiad cyfrifol a moesegol a ddisgwylir gan yr holl staff a'r dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn Athrofa Padarn Sant a'r canlyniadau os amheuir diffyg cydymffurfio. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'n cynnwys yr holl ddysgwyr sy'n gweithio ar brosiectau dysgu annibynnol a/neu draethodau y mae ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol yn rhan ohonynt.

**2.2** Lluniwyd y polisi hwn gyda'r ddealltwriaeth y bydd ymchwilwyr yn cydnabod bod uniondeb academaidd mewn ymchwil, yn yr un modd â gydag unrhyw waith academaidd arall, yn cynnwys y gofyniad i osgoi llên-ladrad, arferion dyfynnu gwael, cyd-dwyllo, twyll contract, neu droseddau tebyg eraill sy'n cael eu hegluro'n llawn ym Mholisi Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant. Felly, mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar y materion moesegol sy'n codi yn sgil pynciau ymchwil y gellid eu dosbarthu fel rhai 'sensitif', sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, sydd o bosibl neu yn bendant yn peri gwrthdaro rhwng buddiannau i'r ymchwilydd, ac unrhyw bryderon moesegol eraill. Mae hefyd yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth foesegol briodol i gais pan fydd unrhyw rai o'r pryderon uchod yn bodoli.

**2.3** Mae llawer o weithgareddau a wneir gan ddysgwyr, yn enwedig mewn lleoliadau a chyd-destunau proffesiynol, nad ydynt yn cyfri fel gwaith ymchwil at ddibenion y polisi hwn, er enghraifft, gofyn i bobl lenwi ffurflenni adborth ar bregethau neu ysgrifennu myfyrdod ar ymweliad bugeiliol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod goblygiadau moesegol i'r gweithgareddau hyn o hyd, a chyfeirir at y rhain yn y canllawiau a ddarperir gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

## 3. Fframwaith y Polisi

**3.1** Rhaid i'r holl ymchwil a wneir o dan nawdd Athrofa Padarn Sant fodloni'r gofynion statudol. Mae pwysigrwydd arbennig i'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), yn ogystal â'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a'r gofyniad am ganiatâd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheini sy'n gweithio gyda phlant a'r ddarpariaeth o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer y rheini sy'n gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

**3.2** Lle y bo'n berthnasol, dylai'r ymchwilwyr gydymffurfio hefyd ag unrhyw ganllawiau moeseg ymchwil a bennir gan eu sefydliadau proffesiynol, neu gyrff cyllido. Gallai hyn gynnwys unrhyw geisiadau am adolygiadau moesegol gan y cyrff hynny a chydymffurfio ag unrhyw

reoliadau cydymffurfio eraill a archwilir (e.e. Adolygiad Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol y GIG).

**3.3** Datblygwyd y polisi hwn yn unol â'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn. Nid yw hon yn rhestr gyflawn:

- Polisi Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant
- Llawlyfrau'r Rhaglen Academaidd
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Rheoliadau Academaidd, Prifysgol Caerdydd
- Polisi Moeseg Ymchwil Dyfarniadau Cyffredin
- Polisi TG Athrofa Padarn Sant
- Polisi Atal Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant
- Polisi Diogelu Data Dysgwyr Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant
- Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant

## 4. Diffiniadau

**4.1** Diffinnir ***Ymchwil*** fel: ymchwiliad systematig i ddeunyddiau a ffynonellau, a'u hastudiaeth, er mwyn sefydlu ffeithiau a chyrraedd casgliadau newydd. Mae'n berthnasol i'r gwaith ymchwil a wneir gan staff ar ran Athrofa Padarn Sant, ac ymchwil personol a wneir gan staff ac eraill sy'n ymweld ag Athrofa Padarn Sant neu sy'n gweithio yno (e.e. defnyddwyr y Llyfrgell o'r tu allan ac eraill sy'n defnyddio safleoedd yr Athrofa). Yn olaf, mae'n berthnasol i waith y dysgwyr a'r arholwyr e.e. cyflwyno ac asesu traethawd ymchwil, traethawd hir, traethawd neu waith cwrs arall.

**4.2** Diffinnir ***Ymchwilwyr*** fel: yr holl ddysgwyr, yr holl aelodau o staff, gan gynnwys yr aelodau hynny o Athrofa Padarn Sant sy'n gwneud gwaith ymchwil dramor, a'r rheini nad ydynt yn aelodau o'r Athrofa (ymwelwyr) sy'n gwneud gwaith ymchwil ar eiddo Athrofa Padarn Sant neu'n defnyddio cyfleusterau'r Athrofa.

### 4.3 *Camymddwyn mewn Ymchwil:*

**4.3.1** Diffinnir Camymddwyn mewn Ymchwil fel: achosion gwirioneddol neu a ymgeisiwyd o ddweud celwydd, ffugio, llên-ladrad, neu dwyll wrth gynnig, cynnal, neu adrodd canlyniadau ymchwil, neu wyro bwriadol, peryglus, diofal, neu esgeulus oddi wrth arferion derbyniol wrth gynnal gwaith ymchwil. Mae'n cynnwys methiant i ddilyn protocolau sefydledig os yw'r methiant hwn yn arwain at risg afresymol neu niwed i bobl, a chymryd rhan mewn Camymddwyn mewn Ymchwil drwy gydgynllwynio neu guddio gweithredu o'r fath gan eraill. Mae hefyd yn cynnwys y defnydd, datgeliad neu warediad heb awdurdod bwriadol neu ddiofal o eiddo sy'n ymwneud â'ch gwaith ymchwil eich hunan, neu ddifrod iddo, gan gynnwys cyfarpar, deunyddiau, ysgrifau, data, caledwedd neu feddalwedd, neu unrhyw sylweddau neu ddyfeisiau eraill a ddefnyddir yn y gwaith ymchwil neu a gynhyrchir o ganlyniad iddo.

**4.3.2** Nid yw Camymddwyn mewn Ymchwil yn cynnwys camgymeriad gonest neu wahaniaethau gonest yn y gwaith o ddylunio, gwneud, dadansoddi neu farnu wrth werthuso dulliau neu ganlyniadau gwaith ymchwil, neu gamymddwyn nad yw'n gysylltiedig â'r broses ymchwil.

### 4.4 Goruchwylwyr a Chyfranogwyr

**4.4.1** Diffinnir ***Goruchwylwyr*** fel y rheini y dynodwyd y cyfrifoldeb penodol iddynt gefnogi'r ymchwilydd yn ystod y broses ymchwil.

**4.4.2** Diffinnir y ***Cyfranogwyr Dynol*** fel y rheini sy'n cynorthwyo'r ymchwilydd i gasglu eu data ymchwil drwy, er enghraifft, lenwi holiaduron neu roi caniatâd iddynt eu hunain gael eu harsylwi, a/neu eu cyfweld.

## 5. Diogelu

Os yw'r gwaith ymchwil yn cynnwys cyfranogiad plant neu oedolion sy'n agored i niwed, rhaid i'r ymchwilwyr dderbyn datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hwn yn ofyniad allweddol.

Ni ddylid fyth gynnal cyfweliadau (gan gynnwys rhai wyneb yn wyneb ac ar-lein) gyda phlant, pobl ifanc o dan 18 oed, neu oedolion sy'n agored i niwed, p'un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn grŵp, gan y cyfwelydd yn unig neu, yn achos oedolion sy'n agored i niwed, heb oruchwyliaeth briodol. Rhaid i oedolyn cyfrifol fel rhiant, gofalwr neu athro fod yn bresennol. Cyfrifoldeb y myfyrwyr yw canfod canllawiau diogelu'r Eglwys yng Nghymru a glynu atynt, neu gyd-destunau eraill lle y cynhelir gwaith ymchwil. Nid yw unrhyw ymrwymiad i gyfrinachedd a wneir i'r cyfranogwyr yn dileu'r angen i ddilyn y canllawiau diogelu.

## 6. Cod Ymarfer Ymchwil Moesegol

Mae Athrofa Padarn Sant yn gweithio i greu a chynnal diwylliant sy'n meithrin ac yn cefnogi gonestrwydd wrth gynnal gwaith ymchwil academaidd ar unrhyw lefel. Mae Athrofa Padarn Sant yn ymrwymo i chwarae ei ran mewn cyrraedd y gôl hon ac mae'n disgwyl i ymchwilwyr a goruchwylwyr wneud yr un peth.

### 6.1 Ymchwilwyr

Felly, mae Athrofa Padarn Sant yn disgwyl i'r holl ymchwilwyr gydymffurfio â'r safonau moesegol ac uniondeb uchaf yn y gwaith o gynnal eu gwaith ymchwil. Wrth geisio cyrraedd safonau uchel o'r fath, mae'n gyfrifoldeb ar ymchwilwyr i:

**6.1.1** ystyried a rheoli goblygiadau moesegol gwirioneddol, canfyddedig neu bosibl eu gwaith ymchwil ar bob achlysur, gan ddilyn y gweithdrefnau yn y ddogfen hon neu rai awdurdodau perthnasol eraill. Felly, mae gan ymchwilwyr rwymedigaeth i sicrhau bod eu gwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant a chan gydymffurfio â'r gyfraith.

**6.1.2** arddangos uniondeb a phroffesiynoldeb, tegwch a chydraddoldeb, a gonestrwydd deallusol; dylent fod yn onest felly wrth gynnig, cynnal ac adrodd am waith ymchwil; gan aros yn annibynnol a diduedd wrth ganfod ac ymdrin â data, sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd data a chanlyniadau ymchwil a chydnabod cyfraniadau eraill wrth gyhoeddi a dosbarthu canlyniadau, a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw gamymddwyn na'i guddio.

**6.1.3** cydymffurfio â'r rhwymedigaethau moesegol a chyfreithiol fel sy'n angenrheidiol gan yr holl awdurdodau statudol a rheoleiddio, gan gynnwys gwneud ceisiadau am adolygiadau a chymeradwyaeth foesegol ar gyfer prosiectau ymchwil fel sy'n briodol.

**6.1.4** cyhyd ag y bo'n bosibl, sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymchwil.

**6.1.5** sicrhau cydsyniad ysgrifenedig gan yr holl gyfranogwyr. Dylid rhoi gwybodaeth ddigonol i'r cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn deall beth yw cynnwys yr ymchwil, y gweithdrefnau i sicrhau cyfrinachedd, ac y gallant dynnu'n ôl o gymryd rhan yn y gwaith ar unrhyw adeg.

**6.1.6** cadw cyfrinachedd y wybodaeth a ddarperir gan y cyfranogwyr ymchwil ac anhysbysrwydd yr ymatebwyr (oni bai y rhoddir caniatâd pendant i'r gwrthwyneb).

**6.1.7** sicrhau y dylai'r gwaith ymchwil gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a Pholisi

Diogelu Data yr Eglwys yng Nghymru (neu unrhyw awdurdod perthnasol arall), ynghylch storio, rhannu a chael gwared ar y data personol a gesglir yn ystod y gwaith ymchwil.

**6.1.8** rheoli unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, p'un a yw'n wrthdaro gwirioneddol neu bosibl, mewn modd effeithiol a thryloyw, gan adrodd ynghylch y rhain i'r awdurdod priodol, fel sy'n angenrheidiol.

**6.1.9** cydnabod eu hatebolrwydd i'r goruchwyliwr, y cyfranogwyr, a Phadarn Sant o ran sut y bydd eu hymchwil yn cael ei gynnal.

### 6.2 Goruchwylwyr

Mae Athrofa Padarn Sant yn disgwyl i bob goruchwyliwr gynnal y safonau uchaf o ran moeseg ac uniondeb wrth gefnogi eraill gyda'u gwaith ymchwil. Wrth geisio cyrraedd safonau uchel o'r fath, mae cyfrifoldeb ar oruchwylwyr i:

- cynorthwyo'r ymchwilydd i reoli goblygiadau moesegol posibl eu gwaith ymchwil a dilyn y gweithdrefnau yn y ddogfen hon neu ddogfennau awdurdodau perthnasol eraill.
- cynnig cyngor i'r ymchwilydd ynghylch sut i ddilyn yr arferion ymchwil gorau a chynnal safonau uniondeb ym mhob agwedd ar eu gwaith ymchwil.
- monitro cydymffurfiaeth yr ymchwilydd â'r rhwymedigaethau moesegol a chyfreithiol.
- cyhyd ag y bo'n bosibl, gwarchod iechyd, diogelwch a llesiant yr ymchwilydd a'u hunain.
- cynnal anhysbysrwydd y wybodaeth am gyfranogwyr ymchwil a phynciau ymchwil eraill a ddatgelir yn ystod eu cyfnod o oruchwylio.
- sicrhau bod eu cofnodion eu hunain ynghylch goruchwylio gwaith ymchwil yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a Pholisi Diogelu Data yr Eglwys yng Nghymru, o ran storio, rhannu a chael gwared ar ddata personol a gesglir wrth iddynt weithredu eu rôl oruchwylio.
- datgan i Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a allai godi wrth iddynt weithredu eu rôl oruchwylio.
- bod yn effro i unrhyw gyhuddiadau o gamymddwyn mewn gwaith ymchwil, p'un a ydych yn dyst iddo neu'n ei amau, ac adrodd yn ei gylch os yw'n briodol.

### 6.3 Ymdrin â Data

**6.3.1** Dylai ymchwilwyr gasglu data mewn modd cywir ac effeithlon, ac yn unol â dyluniad

y prosiect ymchwil y cytunwyd arno, a sicrhau eu bod wedi'u cadw ar ffurf ddiogel a hygyrch, mewn cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol neu ofynion cyllidwr yr ymchwil, yn enwedig deddfwriaeth diogelu data.

**6.3.2** Dylai ymchwilwyr gynnal cyfrinachedd y rheini sy'n darparu data lle y gwnaed ymrwymiadau i drydydd partïon.

**6.3.3** Dylai ymchwilwyr barchu a diogelu hawliau eiddo deallusol pob trydydd parti.

**6.3.4** Dylid cydnabod a dyfynnu awduron yr holl ddata trydydd parti'n gywir yn unol â'r system gyfeirio a gydnabyddir.

**6.3.5** Os bydd data ymchwil yn cael eu dileu neu eu dinistrio, naill ai oherwydd bod y cyfnod cadw y cytunwyd arno wedi dod i ben neu am resymau cyfreithiol neu foesegol, dylid gwneud hynny yn unol â gweithdrefnau Athrofa Padarn Sant a/neu unrhyw ofynion cyfreithiol neu ofynion cyllidwr y gwaith ymchwil gan roi sylw arbennig i gyfrinachedd a diogelwch.

## 7. Rhesymau dros Geisio Adolygiad/Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Gwaith Ymchwil

Mae'r broses o adolygu a chymeradwyo moeseg ymchwil yn galluogi i ddarpariaeth gael ei rhoi ar waith i liniaru'r risgiau sy'n bodoli yn sgil cynnal gwaith ymchwil. Mae angen i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil roi ystyriaeth a chymeradwyaeth foesegol i unrhyw waith ymchwil sy'n cynnwys y canlynol (neu sy'n peri unrhyw risg moesegol gwirioneddol, canfyddedig neu bosibl na restrir yma).

### 7.1 Ymchwil Sensitif

Mae gwaith ymchwil sensitif yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ymchwil, ond ceir meysydd ymchwil eang a fyddai fel arfer yn cael eu dosbarthu fel rhai 'sensitif':

- ymchwil i weithgareddau anghyfreithlon, gan gynnwys casglu data ffynhonnell e.e. ystadegau troseddau.
- ymchwil lle y mae angen mynediad at safleoedd ar y we a waherddir fel arfer ar weinyddwr Athrofa Padarn Sant; gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, bornograffi, gamblo, neu safleoedd unrhyw sefydliadau sydd wedi'u diarddel gan Lywodraeth y DU.
- ymchwil i eithafiaeth a radicaleiddio.
- ymchwil a allai beri risg personol i destunau'r gwaith ymchwil pe bai canfyddiadau'r

gwaith yn hysbys yn eang.

Dylid gwneud gwaith ymchwil sensitif a'i barhau dim ond os yw'r buddiannau a ragwelir yn cyfiawnhau'r risgiau sydd ynghlwm ag ef.

Gall Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil geisio cyngor arbenigol o fewn yr Eglwys yng Nghymru ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â cheisiadau cymhleth, diogelu, yswiriant, atebolrwydd, neu oblygiadau cyfreithiol cais. Gellir gofyn am gyngor gan, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg, neu'r Cyfarwyddwr Diogelu.

**7.1.1** Cydnabyddir y bydd angen i academyddion a dysgwyr gael mynediad o bryd i'w gilydd at gynnwys sydd wedi'i wahardd o bosibl neu ddeunydd a ystyrir yn amhriodol fel arfer er mwyn cynnal gwaith ymchwil a sancsiynwyd. Gall defnyddwyr wneud cais i'r Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg i safleoedd ar y we sydd wedi'u gwahardd gael eu rhoi ar y 'rhestr wen' dros dro. Rhaid i'r cais gael ei gefnogi drwy gadarnhad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

**7.1.2** Nid yw Athrofa Padarn Sant yn caniatáu unrhyw weithgareddau anghyfreithlon mewn gwaith ymchwil. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n anghyfreithlon a'r hyn sy'n gyfreithlon ond yn anniogel o bosibl. Felly, bydd pob prosiect ymchwil sy'n dod o fewn y categori hwn yn cael ei ystyried yn ofalus a bydd ei gyfreithlondeb yn cael ei asesu cyn y rhoddir caniatâd i barhau. Er bod Athrofa Padarn Sant yn cefnogi'r egwyddor o ryddid academaidd ac yn cefnogi ei ymchwilwyr i wneud gwaith uchelgeisiol, trylwyr a heriol, mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i fonitro'r holl waith ymchwil ac i adrodd ynghylch unrhyw weithgaredd anghyfreithlon lle y bo'n briodol. I'r gwrthwyneb, er mwyn diogelu'r ymchwilwyr rhag camddehongliad o'u bwriad gan yr awdurdodau ac ymchwiliadau dilynol, rhaid i unrhyw ymchwilydd sy'n gwneud gwaith ymchwil sensitif roi mesurau ar waith i liniaru'r peryglon sydd ynghlwm â gwaith ymchwil o'r fath.

**7.1.3** Yn yr un modd, mae Athrofa Padarn Sant yn cymryd ei ddyletswydd o ddifrif o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi ystyriaeth ddigonol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth ar ei gampws (darllenwch Bolisi Atal Athrofa Padarn Sant), p'un ai drwy ddulliau llafar, gweledol ac ysgrifenedig, neu ddulliau eraill. Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cadw golwg ar wefannau sy'n ymwneud ag eithafiaeth a therfysgaeth. Gallant ystyried bod ymweld â gwefannau o'r fath a/neu lawrlwytho deunyddiau sy'n sensitif o ran diogelwch, yn enwedig os ydynt yn ymwneud â therfysgaeth, yn droseddau y gellid erlyn yn eu cylch os ystyrir bod y bwriad yn anghyfreithlon. Felly, er mwyn diogelu'r ymchwilwyr rhag camddehongliad o'u bwriad gan yr awduroddau ac

ymchwiliadau dilynol, rhaid i'r ymchwiliwr sicrhau y gall Athrofa Padarn Sant roi protocolau penodol ar waith i liniaru'r risgiau mewn perthynas â phawb sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil o'r fath. Mae hefyd yn galluogi Athrofa Padarn Sant i egluro i awdurdodau allanol, os oes angen, bod yr ymchwilwyr yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil awdurdodedig.

### 7.2 Cyfranogiad Dynol

**7.2.1** Caiff cyfranogiad dynol ei ddiffinio fel: cyfranogiad uniongyrchol drwy weithdrefnau nad ydynt yn ymwthiol, fel cyfweliadau, holiaduron, arolygon, arsylwi; cyfranogiad anuniongyrchol drwy fynediad at wybodaeth bersonol; a/neu gyfranogiad y mae angen caniatâd ar ei gyfer ar ran eraill, fel gan rieni ar gyfer cyfranogwr sy'n blentyn o dan 18 oed neu ofalwr oedolyn sy'n agored i niwed e.e. pobl oedrannus, pobl sydd ag anhwylderau corfforol neu feddyliol, pobl gydag anghenion dysgu ychwanegol, pobl mewn gofal, pobl sy'n galaru, a phobl sydd yn y carchar.

**7.2.2** Mae'r broses o wneud cais am adolygiad/cymeradwyaeth ar gyfer moeseg ymchwil yn caniatáu i'r ymchwilydd a Phadarn Sant ystyried a oes potensial i'r gwaith ymchwil beri niwed i urddas, hawliau, diogelwch a/neu lesiant unrhyw rai o'r cyfranogwyr dynol gan gynnwys eu hunain neu'r amgylchedd.

**7.2.3** Dylid gwneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol a'i barhau dim ond os yw'r buddiannau a ragwelir yn cyfiawnhau'r risgiau sydd ynghlwm ag ef.

### 7.3 Gwrthdaro rhwng Buddiannau

**7.3.1** Diffinnir gwrthdaro rhwng buddiannau fel gwaith ymchwil lle y gallai ystyriaethau ariannol neu bersonol arall beryglu, neu ymddangos fel eu bod yn peryglu, barn broffesiynol ymchwilydd wrth gynnal neu adrodd ynghylch gwaith ymchwil.

**7.3.2** Rhaid i Badarn Sant a'r ymchwilwyr gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i'w hastudiaeth. Dylent ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau posibl neu wirioneddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymchwil a, lle y bo'n angenrheidiol, dylent gymryd camau i'w ddatgan a'i ddatrys drwy'r gweithdrefnau yn adran 8 isod.

## 8. Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cais am Adolygiad/Cymeradwyaeth Foesegol ar gyfer Gwaith Ymchwil

### 8.1 Gweithdrefn ar gyfer Tasgau Israddedig ac Ôl-raddedig

**8.1.1** Cyfrifoldeb Arweinydd y Modiwl yw nodi unrhyw ystyriaethau moesegol posibl wrth bennu tasgau a rhoi cynllun rheoli ar waith i liniaru'r risgiau. Fodd bynnag, dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol hefyd o unrhyw ystyriaethau moesegol posibl yn eu holl waith academaidd.

**8.1.2** Ar ddechrau pob tymor, dylai Arweinwyr y Modiwlau gyflwyno cwestiynau eu tasgau i Arweinydd y Rhaglen gyda datganiad, lle y bo'n briodol, yn datgan unrhyw risg moesegol posibl a gyflwynir gan y cwestiwn a sut y maent yn bwriadu llinaru'r risg(iau) a nodwyd.

**8.1.3** Bydd Arweinydd y Modiwl yn parhau i gefnogi'r dysgwr/dysgwyr fel sy'n angenrheidiol drwy gydol y broses ymchwil, ar y cyd ag aelodau eraill o staff fel sy'n briodol.

### 8.2 Y Weithdrefn ar gyfer Modiwlau Astudiaeth a Thraethodau Hir a Negodwyd

**8.2.1** Gall y dysgwyr ddewis cymryd rhan mewn Modiwl Astudiaeth a Thraethawd Hir a Negodwyd fel rhan o'u hastudiaethau. Rhaid iddynt ddilyn y polisi a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y ddogfen hon wrth weithio arnynt.

**8.2.2** Y dysgwyr sy'n gyfrifol am gynnwys eu gwaith ymchwil.

**8.2.3** Cyfrifoldeb y dysgwr yw nodi unrhyw ystyriaethau moesegol posibl wrth ddewis pwnc ymchwil ac, yn ystod y broses hon, rhaid iddynt ystyried sut i liniaru a rheoli unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrtho.

**8.2.4** Bydd y Goruchwyliwr yn ystyried y materion moesegol posibl sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymchwil arfaethedig a gall gynghori a ddylid cyflwyno cais am gymeradwyaeth foesegol. Cyfrifoldeb y dysgwr o hyd yw gwneud cais am gymeradwyaeth foesegol.

**8.2.5** Ni ellir dechrau ar waith ymchwil y mae angen cymeradwyaeth foesegol ar ei gyfer nes y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r ymchwilydd. Gallai methu â chydymffurfio â'r rheol hon arwain at ymchwiliad i gamymddwyn academaidd.

**8.2.6** Cyfrifoldeb y dysgwr yw cyflwyno cais wedi'i ddiwygio ar gyfer cymeradwyaeth foesegol os newidir y gwaith ymchwil arfaethedig.

**8.2.7** Wrth gyflwyno'r papur ar gyfer ei farcio, dylid cynnwys tystiolaeth o'r gymeradwyaeth foesegol.

### 8.3 Gweithdrefnau i'r Staff

**8.3.1** Dylai'r aelodau o staff fod yn ymwybodol ar bob achlysur o oblygiadau moesegol posibl eu gwaith ymchwil a threfnu'r gymeradwyaeth briodol gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

**8.3.2** Rhaid i'r staff ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ym mhob achos os yw'r dysgwyr yn ymchwilio i fater sensitif y mae potensial iddo gael ei ystyried yn drosedd. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn cymeradwyo cynllun rheoli a monitro priodol i sicrhau diogelwch yr ymchwilydd a Phadarn Sant.

### 8.4 Gweithdrefnau ar gyfer Ymwelwyr

**8.4.1** Dylai ymwelwyr fod yn ymwybodol ar bob achlysur o oblygiadau moesegol posibl eu gwaith ymchwil a threfnu goruchwyliaeth briodol gan aelod o staff Athrofa Padarn Sant lle y bo'n briodol.

**8.4.2** Rhaid i ymwelwyr ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil os ydynt yn ymchwilio i fater sensitif sydd â'r potensial i gael ei ystyried yn drosedd. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cynllun rheoli a monitro priodol wedi'i roi ar waith i sicrhau diogelwch yr ymchwilydd a Phadarn Sant.

## 9. Proses Gymeradwyo ar gyfer Ymchwil sy'n cynnwys Elfen Foesegol: Pwyllgor Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant

**9.1** Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant yn ystyried ceisiadau ar gyfer cymeradwyo moeseg ymchwil gan staff, ymwelwyr a dysgwyr.

**9.2** Dylid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Moeseg Ymchwil a dylid eu cefnogi gyda dogfennau o'r fath a fydd yn galluogi'r pwyllgor i wneud penderfyniad. (Darllenwch y canllawiau a luniwyd gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil i weld enghraifft o Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr a Ffurflen Ganiatâd i Gyfranogwyr).

**9.3** Bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant naill ai'n cymeradwyo'r gwaith ymchwil, yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd neu'n gwrthod y cais.

**9.4** Ni all unrhyw waith ymchwil y mae angen cymeradwyaeth moesegol ar ei gyfer ddechrau nes bod Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi hysbysu'r ymchwilydd yn ffurfiol ei fod wedi'i gymeradwyo.

**9.5** Os yw aelod o staff, ymwelydd neu ddysgwr yn anfodlon â phenderfyniad Pwyllgor Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant, yna gallant apelio yn erbyn y penderfyniad drwy ysgrifennu, o fewn 30 niwrnod ar ôl derbyn penderfyniad y pwyllgor, at y Pennaeth yn amlinellu eu pryderon.

Mae penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

## 10. Camymddwyn mewn Gwaith Ymchwil

**10.1** Gall methu â chydymffurfio â'r Polisi Moeseg Ymchwil arwain at gyhuddiad o gamymddwyn.

**10.2** Defnyddir Polisi a Gweithdrefnau Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant ar gyfer pob dysgwr ym Mhadarn Sant.

**10.3** Bydd Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer aelodau o staff.

**10.4** Mewn perthynas ag Ymwelwyr, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil neu ei gynrychiolydd yn cysylltu â goruchwyliwr yr ymwelydd a/neu'r brifysgol a fydd yn dilysu eu gwaith ymchwil, fel y gallant ystyried cynnal eu hymchwiliad eu hunain. Bydd Athrofa Sant Padarn yn trefnu ond fel arfer ddim yn arwain ymchwiliad o'r fath oni bai y cytunir ar hynny gan yr holl bartïon, ac yn yr achos hwnnw bydd y weithdrefn a ddefnyddir yn cael ei phennu ar y pryd.

**10.5** Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar rhaglenni achredir gan Brifysgol Durham yn unig: Dylid darllen y polisi ar y cyd â Pholisi Common Awards ar Camymddwyn Academiadd: Moeseg Ymchwil. Sy'n amlinellu y weithdrefn caiff ei ddilyn mewn achosion lle mai amheuaeth nad yw myfyriwr wedi dilyn ei Polisi Moeseg Ymchwil wrth gyflawni aseiniaadu academaidd ar gyfer modiwl Common Awards.

## 11. Cyfrifoldebau a Chymeradwyo ac Adolygu Polisïau

**11.1** Bydd y ddogfen hon, yn ogystal â'r holl ddogfennau polisi, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n ymwneud â'r rheini sy'n astudio ym Mhadarn Sant, ar gael i bawb, a byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

**11.2** Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Polisi Moeseg Ymchwil, gan gynnwys y broses o'i gymeradwyo a'i adolygu'n rheolaidd.

## 12. Cyfathrebu'r Polisi

**12.1** Gellir canfod y ddogfen hon, a'r holl ddogfennau polisi a gweithdrefnau eraill y cyfeirir atynt yn y polisi hwn, ar wefan Athrofa Padarn Sant: www.stpadarns.ac.uk.

**12.2** Gwneir pob ymdrech i ymateb i unrhyw gais i ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

**12.3** Bydd y polisi hwn yn cael ei gynnwys yn sesiynau cynefino'r staff a'r dysgwyr.